# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Jon Antoniazzi**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod cyn y prif gyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – Trafod y materion allweddol

(09.30 - 10.20) (Tudalennau 1 - 57)

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

## Egwyl

(10.20 - 10.30)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.30)

## 3 Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon – Sesiwn dystiolaeth 6

(10.30 - 12.00) (Tudalennau 58 - 87)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Steve Davies - Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Huw Foster Evans - Ymgynghorydd Proffesiynol - Datblygu gweithlu'r ysgol

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

CYPE(5)-12-17 - Papur | Paper 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 4 Papurau i'w nodi

(12.00)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon – Datblygu'r cwricwlwm newydd**

(Tudalennau 88 - 89)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-12-17 - Papur | Paper 2 - i'w nodi | to note

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 90 - 91)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-12-17 - Papur | Paper 3 - i'w nodi | to note

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau nesaf ac ar gyfer y cyfarfod cyfan ar 4, 10 a 18 Mai.

(12.00)

## 6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Carchardai a Llysoedd

(12.00 - 12.20) (Tudalennau 92 - 100)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-12-17 - Papur | Paper 4

## 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.20 - 12.30) (Tudalennau 101 - 123)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-12-17 - Papur | Paper 5

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am gynnal ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys edrych ar y canlynol:

(i) Y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol.
(ii) Rôl addysg gychwynnol athrawon.
(iii) Digonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad diweddaraf hwn wedi rhoi cyfle i edrych yn fanylach ar faterion penodol sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol. Materion oedd y rhain a ddaeth i'r amlwg yn wreiddiol yn ystod yr ymchwiliad i Dyfodol Llwyddiannus.

Rwyf wedi rhoi ymateb ysgrifenedig i'ch llythyr dyddiedig 21 Chwefror, yn cyfeirio at faterion yn yr ymgynghoriad sy'n canolbwyntio ar Fesurau Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a chymhellion i ddarpar athrawon.

Rwyf wedi ymrwymo i roi cyfle i bob ymarferydd addysg dyfu, datblygu a chydnabod rhagoriaeth, a hynny er mwyn ymateb i'r her o ddiwygio'r maes addysg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cwricwlwm newydd a system well ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Er ein bod wedi pennu blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer dysgu proffesiynol, a hynny er mwyn paratoi'r proffesiwn at y cwricwlwm newydd, gan gynnwys yn y meysydd digidol, arweinyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu, nid yw'n bosibl rhagweld anghenion y dyfodol yn llwyr ar hyn o bryd.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad yn adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) y dylem barhau i ddatblygu dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol. Dylai'r dull hwn roi sylw i bob cyfnod yng ngyrfa ymarferwyr, a dylai ddatblygu capasiti er mwyn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen inni ei wneud nawr er mwyn ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau ar hyn o bryd, ac er mwyn rhoi sylw hefyd i'r addysgeg sy'n datblygu wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith a chyflwyno'r system hunanwella. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i flaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mae'r ymatebion ysgrifenedig a llafar i'r ymgynghoriad hyd yma wedi amlygu ystod o themâu pwysig sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol, ac rwyf wedi rhoi sylw i'r rhain yn y papur tystiolaeth atodedig.

Rwy'n edrych ymlaen i barhau i ystyried yr hyn a ddaw i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn, yn dilyn y sesiynau tystiolaeth lafar. Rwy'n edrych ymlaen hefyd i weithio â chi er mwyn herio'n adeiladol y modd y caiff y dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol ei ddatblygu, a hynny ar adegau allweddol yn y broses ddiwygio.

**DYSGU PROFFESIYNOL**

**Dull cyson o ddarparu dysgu proffesiynol/model cynllunio'r gweithlu**
**Y cefndir**

Rydym eisoes wedi cyflawni llawer ar ein taith yn y maes dysgu proffesiynol er mwyn diwygio'r maes addysg yng Nghymru. Er mwyn rhoi blaenoriaethau Cymwys am Oes ar waith yn llwyddiannus, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sefydlu seiliau cadarn ar gyfer dysgu proffesiynol, gan ddatblygu ar lwyddiant ein dull cenedlaethol o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Cafodd hyn sylw yn Dyfodol Llwyddiannus.

Yn 2012/13 bu newid amlwg yn ein dull o ddatblygu'r cymwysterau TGAU newydd, wrth inni ganolbwyntio ar egwyddorion cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu a gweithio â'r rhanbarthau a'n hysgolion mwyaf effeithiol. Yn 2014, roeddem yn dal i weithio â'r rhanbarthau a'n partneriaid i ddatblygu dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol, a hynny er mwyn helpu wrth gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Er mwyn rhoi Dyfodol Llwyddiannus ar waith, roeddem yn cydnabod ei bod yn hanfodol cytuno â'r proffesiwn ar atebion ar gyfer dysgu proffesiynol.

Yn 2015, sefydlwyd rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion arloesi gennym. Yn ystod y 18 mis cyntaf, mae'r rhwydwaith wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau'r funud ar gyfer dysgu proffesiynol, gan gynnwys yn y meysydd digidol, arweinyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu. Fel rhan allweddol o'n gwaith i wella safonau wrth ddysgu ac addysgu'r pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg), rydym hefyd wedi sefydlu Rhwydweithiau Cenedlaethol er Rhagoriaeth, a hynny mewn Mathemateg ac mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd datblygu newydd i ymarferwyr ac yn eu galluogi i fanteisio ar yr ymchwil a'r cyngor arbenigol diweddaraf.

Yn 2016, lansiwyd adolygiad gennym o'r safonau proffesiynol ar gyfer dysgu ac arweinyddiaeth. Yn sgil yr ymgynghoriad presennol, bydd y safonau newydd yn sail i ddiwygio'r maes dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

Ers 2016, rydym wedi bod yn gweithio i sefydlu dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol, gan ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'r system hunanwella, gan ymwneud yn barhaus â'r OECD i'n helpu i wneud hynny. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol eisoes yn cael ei rhoi ar waith ar gryn gyflymder. Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith â'n hysgolion arloesi i fwrw ymlaen â nifer o'r themâu sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol a gafodd sylw yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethau digidol a chreu diwylliant dysgu proffesiynol mewn ysgolion.

Ym mis Medi, yn unol â'r amserlen, mae disgwyl lansio'r dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae'r ysgolion arloesi digidol a dysgu proffesiynol wedi profi gwerth y dull hwn, er mwyn rhoi continwwm wrth i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol fwrw gwreiddiau. Rydym hefyd yn un o bedair gwlad sy'n arwain ar ymchwil rhyngwladol gan yr OECD er mwyn trawsnewid ysgolion yn sefydliadau dysgu. Mae'r ysgolion arloesi yn arwain ar y prosiect blaengar hwn, ac yn gweithio â chydweithwyr rhyngwladol er mwyn datblygu model ar gyfer sefydliadau dysgu sydd 'wedi'i greu yng Nghymru'.

Drwy wahodd yr OECD i adolygu ein proses ddiwygio ar adegau rheolaidd yn 2014 a 2016, rydym wedi gallu canfod y cryfderau sy’n sail i system addysg Cymru, ynghyd â’r heriau i’r dyfodol.

**Adolygiad yr OECD o'r broses o ddiwygio addysg yng Nghymru**
Rwy’n derbyn argymhelliad diweddar yr OECD bod angen inni barhau i ddatblygu dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol. Dylai’r dull hwn roi sylw i bob cyfnod yng ngyrfa ymarferwyr, a dylai ddatblygu capasiti, gan ddechrau yn ystod addysg gychwynnol athrawon. Dylid ei ymgorffori yn system hunanwella ysgolion, a dylai fod yn ganolog i’r ymchwil ar sail tystiolaeth y bydd POB ymarferydd yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwys mawr ar ddatblygu asesiad ffurfiannol athrawon a sgiliau dysgu gwahanol.
Dywedodd yr OECD y bydd ar Gymru angen math gwahanol o weithiwr addysg proffesiynol yn y dyfodol: un sy'n deall 'pam' a 'sut' y mae addysgu, yn ogystal â 'beth' y mae angen ei addysgu.

Mae llawer iawn o weithgarwch dysgu proffesiynol yn cael ei gynllunio a’i ddarparu drwy Gymru. Rwy’n canolbwyntio ar roi ar waith fethodoleg glir ar gyfer dysgu proffesiynol, a hynny wedi’i seilio ar y canlynol:

- Arferion myfyriol
- Defnyddio data a thystiolaeth ymchwil yn effeithiol
- Cydweithredu’n effeithiol
- Hyfforddi a mentora

Mae’r dull o ddarparu dysgu proffesiynol a’r cwricwlwm newydd yn cael eu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau bod yr anghenion o ran dysgu proffesiynol – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol – yn cael sylw mewn ffordd strwythuredig sydd wedi’i chynllunio.

Mae’r ymateb i’r ymgynghoriad gan gonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar ran y pedwar rhanbarth yn dyst i’r ymrwymiad cryf a’r buddsoddiad sylweddol drwy Gymru er mwyn gweithio tuag at sefydlu dull cenedlaethol.

Mae Cynlluniau Gweithredu Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol a’r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus yn dangos ystod eang y rhaglenni dysgu proffesiynol sy’n cael eu datblygu a’u rhoi ar waith ar hyn o bryd gan y consortia a'r ysgolion arloesi, a hynny er mwyn ehangu darpariaeth ym mhob un o'r cerrig milltir ar gyfer datblygiad gyrfa. Gwneir hyn ar sail genedlaethol. Rydym yn cydnabod y bydd y 12-18 mis nesaf yn hanfodol er mwyn cyflwyno’r dull cenedlaethol o ddarparu dysgu proffesiynol yn ffurfiol. Y nod yw bod yn barod i lansio dull cenedlaethol sydd wedi’i integreiddio’n llwyr erbyn mis Medi 2018.

**Sicrhau ansawdd wrth ddarparu/achredu dysgu proffesiynol**
Rwy’n awyddus i ymarferwyr bennu eu disgwyliadau proffesiynol eu hunain. Bydd hynny’n eu galluogi i ymchwilio, i ddatblygu ac i rannu'r arferion gorau drwy ystod eang o weithgarwch dysgu proffesiynol priodol. Am y rheswm hwn, nid wyf ar hyn o bryd yn rhagweld sefyllfa lle dylid rhoi’r cyfrifoldeb i un corff annibynnol (Cyngor y Gweithlu Addysg) dros benderfyniadau sy’n ymwneud â sicrhau ansawdd dysgu proffesiynol, a hynny ar ran yr holl weithlu addysg.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod ag Estyn ynghylch comisiynu adolygiad thematig sy'n rhoi sylw i ansawdd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd wrthi'n cael ei datblygu er mwyn helpu ymarferwyr i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn bwrw gwreiddiau. Er mwyn adolygu ansawdd ac effaith y ddarpariaeth dysgu proffesiynol a ddatblygir ar y cyd â'r ysgolion arloesi, a gwneud hynny'n barhaus, mae'r consortia rhanbarthol wedi comisiynu ystod o werthusiadau mewnol/allanol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau thematig o'r modd y mae'r ysgolion arloesi yn ymwneud ag ysgolion eraill ac yn gweithio mewn clystyrau, asesiadau o effaith dysgu proffesiynol, a gwerthusiad mewnol o ganolfannau dysgu proffesiynol.

Yn sgil y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, mae'r consortia yn gweithio i fireinio'r dull cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu gwaith a rhoi rhagor o gyfleoedd i achredu ar y cyd â sefydliadau addysg uwch. Mae holl ranbarthau'r consortia yn cynnal ac yn cyd-gyllido gwaith â'r ysgolion i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddilyn rhaglenni ôl-raddedig achrededig drwy bartneriaid addysg uwch. Mae'r rhain yn amrywio o waith ôl-raddedig ar lefel tystysgrif mewn amrywiaeth o arbenigeddau, o gydraddoldeb mewn addysg i arweinyddiaeth, i gymwysterau lefel Meistr llawn ac ymchwil ar lefel doethuriaeth.

**Datblygu'r gweithlu addysg ehangach**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i bob ymarferydd addysg dyfu, datblygu a chydnabod rhagoriaeth er mwyn rhoi Dyfodol Llwyddiannus ar waith.

Mae sefydliadau addysg bellach yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd dysgu proffesiynol i'w staff eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o gamau i hyrwyddo dysgu proffesiynol yn y sector hwn, a'r rheini'n cyd-fynd â blaenoriaethau polisi a meysydd lle mae galw penodol. Bydd y Pasbort Dysgu Proffesiynol ar gael i'r rheini sy'n cofrestru ar gyrsiau addysg bellach. Bydd arolwg diweddar Cyngor y Gweithlu Addysg o'r gweithlu yn sail i ddatblygu cynlluniau dysgu proffesiynol yn y maes addysg bellach yn y dyfodol.

Mae'r Athro Bill Lucas ar hyn o bryd yn cynnull grŵp o randdeiliaid o'r maes addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i ddatblygu safonau proffesiynol o fis Hydref 2017. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod y 6 mis nesaf i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu yn y colegau addysg bellach.

Rydym yn gweithio â'r consortia i ystyried sut y gellid datblygu dull o ddarparu dysgu proffesiynol drwy Gymru gyfan er mwyn galluogi staff cymorth dysgu mewn ysgolion i wella'u dysgu a'u datblygu gan ddefnyddio ystod o opsiynau. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau a chydweithio rhwng timau, gan gynnwys edrych ar sut y gellid defnyddio'r pasbort dysgu proffesiynol i gofnodi gweithgarwch o'r fath. Rydym hefyd yn gweithio â'r consortia i edrych ar sut fath o gyfleoedd datblygu pellach y gellid eu darparu i ymarferwyr sydd â statws Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

O fis Ebrill 2017 mae gofyn i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg. Bydd cofrestru yn cryfhau eu statws proffesiynol, ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Bydd cyfleoedd gwirioneddol hefyd i gynnull ynghyd yr holl ymarferwyr addysg drwy ddatblygu proffesiynol parhaus.

Un o'r themâu sy'n deillio o adroddiad ac argymhellion y tasglu ar y model cyflenwi athrawon yw rhoi cymorth dysgu proffesiynol ychwanegol i athrawon cyflenwi. Rydym yn gweithio â'r consortia i fwrw ymlaen â'r darn hwn o waith, er mwyn canfod sut y gall athrawon cyflenwi ac yn benodol y rheini sydd ar leoliadau byr, ynghyd ag athrawon newydd gymhwyso, ymwneud â dysgu proffesiynol yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn gweithio ag asiantaethau cyflenwi er mwyn eu hannog i gynnig rhaglen sylfaenol ar gyfer dysgu craidd.

**Arweinyddiaeth**
Ar ôl fy nghyhoeddiad ynghylch lansio'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ym mis Tachwedd, mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn sail i'r Academi. Yn hollbwysig, bydd yr Academi yn sicrhau'r un cyfleoedd o'r ansawdd gorau i bawb wrth ddatblygu arweinyddiaeth. Bydd y pwyslais gwreiddiol ar y llwybrau i brifathrawiaeth ac ar gefnogi'r penaethiaid presennol a rhai newydd. Bydd yr Academi hefyd yn rhoi sylw i arweinyddiaeth ar bob lefel yn system addysg Cymru.

Mae datblygu'r Academi yn gam pwysig ymlaen wrth inni gydweithio i ddatblygu arweinyddiaeth, law yn llaw â'n safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu, y gwaith i ddiwygio addysg gychwynnol athrawon, a'r gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae arweinyddiaeth yn un o'r pum dimensiwn yn y safonau proffesiynol drafft sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Safonau yw'r rhain sy'n cydnabod bod gan bawb y gallu i arwain. Bydd y safonau newydd yn cryfhau'r llwybrau i brifathrawiaeth drwy wella dealltwriaeth athrawon o arweinyddiaeth; drwy feithrin hyder ac effeithiolrwydd wrth arwain; a thrwy greu trefniadau gwell i sicrhau cynnydd fel nad yw athrawon yn credu bod rhwystrau i swyddi arwain uwch.

**Cyllid/amser**
Rhoddwyd cyllid o £5.6 miliwn ar gyfer dysgu proffesiynol i'r consortia rhanbarthol yn 2016-17, a hynny er mwyn cefnogi gwaith yr ysgolion arloesi ym maes dysgu proffesiynol a gwella capasiti'r consortia i ddatblygu dull cenedlaethol. Roedd y ffrydiau cyllido yn cyd-fynd â'r prif flaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol, gyda'r sylw ar y meysydd digidol, arweinyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r Llywodraeth wedi dyrannu £5.85 miliwn yn rhagor i gyllido'r gwaith hwn yn ystod 2017-18 a bydd yn parhau i roi'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau bod modd rhoi'r rhaglen ar waith drwy gydol y cyfnod datblygu ac ar ôl hynny.

Eleni, rwyf hefyd wedi cynyddu'r cyllid i'r ysgolion arloesi yn y maes dysgu proffesiynol, o £7,500 yr ysgol bob tymor i £10,000 yr ysgol bob tymor. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ysgolion arloesi yn cael cyfle i gydweithio â'r ysgolion arloesi yn y maes digidol a maes y cwricwlwm.

Yn ogystal â'r cyllid rwyf wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol i'r rhwydwaith o ysgolion arloesi yn y maes dysgu proffesiynol, rwyf wedi ymrwymo £100 miliwn yn ychwanegol dros dymor y Cynulliad i wella safonau mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys rhagor o gyllid i gyflwyno'r system hunanwella a chyllid penodol ar gyfer datblygu proffesiynol yn y maes digidol a maes y Gymraeg.

Mae'r Grant Gwella Addysg hefyd yn rhoi cyllid i helpu ymarferwyr i ddysgu'n broffesiynol ac i ddatblygu, a hynny er mwyn gwella ansawdd addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth yn yr ystafell ddosbarth.

Mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn bwysig i sicrhau dysgu, addysgu ac asesu effeithiol. Mae'n bwysig cofio bod athrawon yng Nghymru yn cael 5 diwrnod hyfforddiant mewn swydd drwy'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, a bydd y rhain yn parhau i fod ar gael. Dylai'r 5 diwrnod fod yn ddigonol i bob ysgol gyflawni unrhyw hyfforddiant, cynllunio a datblygu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer athrawon.

**Ymgysylltu/Capasiti**

Hoffwn ddechrau drwy ddweud ei bod yn un o brif gyfrifoldebau pob unigolyn i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol, ac mai ei ddiben yw datblygu arbenigedd a meithrin hyder. Nid wyf am orchymyn pa fath o ddysgu proffesiynol y dylai pob ymarferydd ei wneud, gan fod pawb yn wahanol ac mae gan bawb anghenion gwahanol. Ond fe ddywedaf hyn: mae'n rhaid cydweithio, mae'n rhaid iddo fod yn gydlynol, a rhaid i ymchwil ei arwain. Bydd hynny o fudd i'r ymarferydd a'n holl ddysgwyr yn y pen draw.

Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn rhoi i ymarferwyr fodd o fyfyrio ynghylch eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain, a chanfod beth yw'r rheini, er mwyn datblygu a gwella eu gwaith ym mhob cam yn eu gyrfa. Bydd y Pasbort yn gwbl ganolog i ddysgu proffesiynol parhaus. Dros amser bydd disgwyl i'r Pasbort esblygu wrth i Gyngor y Gweithlu Addysg gael adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. Bydd gofyn i'r Pasbort adlewyrchu anghenion yr ymarferydd wrth i'r rheini newid, er mwyn ateb y galw yn sgil y cwricwlwm newydd.

Yn greiddiol i'n diwygiadau presennol y mae'r nod o ddatblygu system hunanwella. Mae hwn yn gam bwriadol oddi wrth y dull o'r brig i lawr a welwyd yn y gorffennol, lle'r oedd y Llywodraeth yn gorchymyn, yn cyfarwyddo ac yn rhoi cosbau. Yn lle hynny, bydd y Llywodraeth bellach yn rhoi arweinyddiaeth strategol, yn hwyluso ac yn cefnogi.

Mae'r consortia ym mhob rhanbarth wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu capasiti i symud tuag at system sy'n cael ei harwain gan yr ysgolion, a hynny drwy rwydweithiau, grwpiau o dri, a mentoriaid i gefnogi cydweithio rhwng ysgolion, gan ganolbwyntio ar ymchwil gan ymarferwyr a datblygu arferion ar y cyd.

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i wella'n barhaus ac i gydweithio, a hynny drwy helpu ymarferwyr i geisio sicrhau arferion rhagorol parhaus, o addysg gychwynnol athrawon i'r arweinyddiaeth mewn ysgolion. Bydd y safonau newydd yn pennu'r safon er mwyn sicrhau bod gan ymarferwyr y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad angenrheidiol i ddatblygu'r capasiti i arwain ar bob lefel.

Mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn dangos mewn ffordd gadarnhaol bod ysgolion yn amlwg yn datblygu capasiti mewnol yn gynyddol, a hynny drwy helpu eu staff i hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, gan roi cyfleoedd gwych i hwyluswyr ddatblygu eu sgiliau arwain eu hunain.

**Llesiant**
Ein gweledigaeth yw creu system addysg gwbl gynhwysol yng Nghymru; system lle bydd pob plentyn yn cael ei gefnogi i gyflawni ei botensial. Nid yw cynhwysiant yn ymwneud â grwpiau penodol o ddysgwyr yn unig – mae'n golygu creu system gyfartal sy'n sicrhau bod y dysgwr yn ganolog i bopeth.

Dylai llesiant y plentyn fod yn greiddiol i'n system addysg gynhwysol. Ar gyfartaledd, gwyddom fod plant sydd â lefelau uwch o lesiant – yn emosiynol, yn ymddygiadol, yn gymdeithasol ac yn yr ysgol – yn cyflawni'n well yn academaidd ac yn ymateb yn well yn yr ysgol. Rydym am i bob plentyn fod yn barod i ddysgu yn emosiynol ac yn gorfforol. Byddwn felly yn ychwanegu llesiant fel y pumed amcan yn y fersiwn nesaf o Cymwys am Oes. Roedd hynny ymhlyg yn y fersiwn bresennol, ond bydd yn fwy amlwg bellach. Dechreuodd y gwaith cynllunio lefel uchel ar y maes dysgu a phrofiad iechyd a llesiant ym mis Ionawr. Mae'r gweithdai cychwynnol yn ystyried cwmpas y maes dysgu a phrofiad, y berthynas â'r pedwar diben, profiad perthnasol a'r cysylltiadau â'r meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Gwyddom fod plant a phobl ifanc sy'n cael Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol. Rwyf felly wedi cytuno ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyllido canolfan arbenigedd ar gyfer Profiadau Negyddol mewn Plentyndod. O safbwynt addysg, rwyf am sicrhau bod pob ymarferydd yn wybodus am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod a bod modd iddynt helpu plant a phobl ifanc sy'n agored iawn i niwed, a hynny yn yr ystafell ddosbarth ac fel rhan o ddull ehangach yr ysgol gyfan o roi sylw i lesiant.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Ar hyn o bryd, nod darpariaeth addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol parhaus i athrawon yw galluogi athrawon i ateb anghenion pob dysgwr. Fel rhan o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r rhaglen drawsnewid gysylltiedig, rydym yn gweithio i greu rhaglen unigryw a fydd yn datblygu capasiti yn y gweithlu er mwyn helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi yn yr hyfforddiant a'r datblygiad a fydd ar gael i'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol newydd. Mae hyn yn debygol o gynnwys datblygu rhaglen lefel meistr mewn anghenion dysgu ychwanegol. Bydd datblygiadau ehangach i'r gweithlu yn cael eu rhoi ar waith ymhlith athrawon a staff cymorth. Y bwriad fydd lledaenu strategaethau effeithiol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.

**Y Gymraeg**
Bydd anghenion penodol dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm, gan gynnwys asesu a dysgu proffesiynol. Bydd dysgu proffesiynol ym maes y Gymraeg yn sicrhau bod gan athrawon y sgiliau Cymraeg a'r fethodoleg angenrheidiol i wneud newidiadau radical i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i sicrhau bod hynny'n troi'n realiti.

Gall y cymorth gynnwys cyfleoedd ar gyfer secondiadau mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mentora a chymorth rhwng ysgolion. Gall hefyd gynnwys rhannu arferion effeithiol drwy greu cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, creu

cysylltiadau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a defnyddio ymchwil ac ychwanegu at yr ymchwil hwnnw. Bydd strategaeth newydd y Gymraeg yn rhoi sylw i sut y byddwn yn cefnogi hyn – mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r targedau cysylltiedig yn mynd rhagddo nawr felly ni fyddai'n briodol imi roi manylion elfennau penodol yn y strategaeth ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cynnig cyfnodau o hyfforddiant dwys i athrawon, cynorthwywyr addysgu a darlithwyr addysg bellach. Ein nod yw ehangu'r Cynllun yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn i fwy o athrawon, cynorthwywyr dysgu a darlithwyr addysg bellach nag erioed o'r blaen elwa o'r hyfforddiant sydd ar gael. Mae modelau newydd i roi'r Cynllun ar waith ynghyd â threfniadau i ryddhau ymarferwyr o'u hysgolion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Yn ogystal â dod i ddeall sgiliau Cymraeg y gweithlu, bydd yr arolwg o'r gweithlu sy'n cael ei gynnal gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn rhoi manylion am y gweithlu fesul ardal ddaearyddol – gan ddangos lle mae cyflenwad digonol o athrawon a lle mae angen rhagor o gapasiti. Y nod fydd targedu ein rhaglenni cymorth a hyfforddiant yn unol â hynny.

## ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON

### Y cefndir

Ym mis Mawrth 2014, penodwyd yr Athro John Furlong yn Gynghorwr Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon Cymru. Gofynnwyd iddo ystyried a chwmpasu'r newidiadau y mae eu hangen er mwyn gwella hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru ar ôl yr adolygiad o ansawdd a chysondeb hyfforddiant athrawon a gynhaliwyd gan yr Athro Ralph Tabberer yn 2013[1]. Cyhoeddwyd Addysgu Athrawon Yfory[2] ym mis Mawrth 2015 ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio â'r Athro Furlong ac arbenigwyr annibynnol eraill er mwyn diwygio addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

### Y meini prawf ar gyfer achredu

Datblygwyd y meini prawf drafft ar gyfer achredu gan yr Athro Furlong yn ei rôl fel Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Achredu Addysg Athrawon, ac fe'u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori rhwng 26 Medi a 14 Tachwedd 2016.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad naill ai'n debyg neu'n union yr un fath â'r ymatebion a gyflwynwyd maes o law i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r meini prawf drafft ar gyfer achredu.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch achredu addysg gychwynnol athrawon[3] a chynnal digwyddiad ymgysylltu â'r Athro Furlong a sefydliadau addysg uwch ar 13 Ionawr, diwygiwyd y meini prawf drafft. Cyhoeddwyd y ddogfen derfynol, *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*: *Addysgu Athrawon Yfory* ar 15 Mawrth ochr yn ochr â Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Mae'r meini prawf newydd ar gyfer achredu yn esbonio'r gofynion ar gyfer addysg gychwynnol addysg yng Nghymru:

- Rôl amlycach i ysgolion
- Rôl fwy eglur i brifysgolion
- Cydberchnogaeth o raglen addysg gychwynnol athrawon
- Cyfleoedd wedi'u strwythuro i greu cysylltiadau rhwng dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion
- Ymchwil yn ganolog

Mae'r meini prawf ar gyfer achredu yn cydnabod gwerth system gwbl gydweithredol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, a'r gwahaniaeth y gall hynny ei wneud, lle bydd sefydliadau addysg uwch ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth go iawn. Yn y ddogfen '*Improving schools in Wales: an OECD perspective'* yn 2014, dywedodd yr OECD bod angen i Gymru barhau i ddiwygio a gwella hyfforddiant cychwynnol athrawon ac annog ysgolion i gynnig lleoliadau i hyfforddeion. Mae'r meini prawf yn creu model ar gyfer partneriaethau addysg gychwynnol athrawon lle

1 http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-of-initial-teacher-training-in-wales/?skip=1&lang=cy

2 http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy

3 https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/achredu-addysg-gychwynnol-i-athrawon

mae gan 'ysgolion partner arweiniol' a sefydliadau addysg uwch gyfraniad cyfartal i'w wneud wrth roi cydbwysedd rhwng y theoretig a'r ymarferol, a hynny er mwyn rhoi profiad o ansawdd da i athrawon y dyfodol. Bydd y partneriaethau hyn, gyda chefnogaeth y consortia, yn symud yn eu blaenau i ddatblygu dulliau o sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. Byddant hefyd yn rhoi hyfforddiant i staff, gan gynnwys defnyddio a chyfrannu at ymchwil rhyngwladol, ac yn edrych ar adnoddau ehangach y partneriaethau.

**Rôl Cyngor y Gweithlu Addysg**

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon unigol, a hynny drwy sefydlu Pwyllgor Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol ("y Bwrdd"). Drwy alluogi'r Cyngor i wneud hyn, bydd modd rhoi ystyriaeth fwy penodol i sut y bydd y rhaglenni yn gwella ansawdd darpariaeth addysg gychwynnol athrawon – gan ddenu'r bobl iawn sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau iawn, ynghyd â'r ddawn i addysgu, i'r proffesiwn.

Bydd penodi Cadeirydd credadwy, disglair a dau Ddirprwy Gadeirydd i'r Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer proses achredu sy'n sicrhau ansawdd. Bydd yn sicrhau hefyd bod y broses honno'n un drylwyr a bod y cymorth angenrheidiol ar gael i sicrhau bod pob rhaglen addysg gychwynnol athrawon yn y dyfodol yn cael ei hadolygu yn fanwl ac yn briodol.

Agorodd y broses benodi gyhoeddus ar gyfer swyddi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeiryddion ar 6 Mawrth a bydd yn cau ar 31 Mawrth. Ar ôl creu rhestr fer, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol ym mis Ebrill er mwyn dechrau penodi ym mis Mehefin 2017.

**Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol Athrawon**

Rydym wedi sefydlu Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, dan gadeiryddiaeth yr Athro John Furlong, er mwyn helpu'r partneriaethau addysg gychwynnol athrawon i ateb yr anghenion ar gyfer achredu. Bydd cylch gorchwyl y Fforwm Arbenigwyr hefyd yn cynnwys datblygu addysgeg ar gyfer addysg gychwynnol athrawon ac edrych ar y partneriaethau fel sefydliadau dysgu.

Cyflwynodd deg o bartneriaethau addysg gychwynnol athrawon ddatganiad o'u bwriad i gynnig rhaglenni addysg gychwynnol athrawon o dan y trefniadau newydd. Ystyriodd y Fforwm Arbenigwyr bob Datganiad o Fwriad a chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ym mis Ionawr â phob sefydliad a gyflwynodd Ddatganiad, gan roi adborth yn gynnar fel sail i'r camau nesaf.

**Yr OECD**

Er mwyn sicrhau bod ymchwil yn ganolog wrth ddiwygio addysg gychwynnol athrawon, croesawom arbenigwyr o bob cwr o'r byd i Gymru. Trefnodd yr OECD weithdy rhyngwladol, gan weithio â ni i gryfhau capasiti ar gyfer arferion addysgeg a hynny ar sail tystiolaeth ac ymchwil. Cynhaliwyd gweithdai yng Nghaerdydd rhwng 15 ac 17 Mawrth 2017.

Roedd y gweithdai yn rhan o'n gwaith i greu mwy o gapasiti ar gyfer ymchwil ym maes addysg athrawon yng Nghymru, a hynny ar lefel ysgolion a lefel darparwyr hyfforddiant. Cafodd grŵp o ymchwilwyr rhyngwladol ei gynnull gan yr OECD i'n

helpu i ddatblygu fframwaith sy'n rhoi strwythur ymarferol ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol athrawon, a hynny wedi'i seilio ar egwyddorion addysgeg sydd yn eu tro wedi'u seilio ar dystiolaeth gref.

Bydd gweithdai'r OECD a'r fframwaith sy'n esblygu yn helpu'r partneriaethau addysg gychwynnol athrawon i greu cymuned ddysgu fywiog, gan gydweithio i helpu myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ymchwil, a hynny fel pobl sy'n defnyddio ymchwil ac yn cyfrannu tuag ato. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn helpu myfyrwyr i ddod yn ymarferwyr cymwys, meddylgar, myfyriol ac arloesol ac yn rhai sydd wedi ymrwymo i roi addysg a dysgu o ansawdd da i bob disgybl/myfyriwr.

Yn ei adroddiad *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment report*[4]*,* cyngor yr OECD i Lywodraeth Cymru oedd y dylai barhau â'r diwygiadau i addysg gychwynnol athrawon, gan gynnwys hyrwyddo partneriaethau cryf rhwng sefydliadau addysg gychwynnol athrawon ac ysgolion.

**Yr amserlen i'r dyfodol**

Er y bydd y rhaglenni addysg gychwynnol athrawon newydd yn cael eu darparu o fis Medi 2019, disgwyliaf weld cynnydd sylweddol nawr. Mae fy Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol Athrawon wedi rhoi adborth manwl i'r partneriaethau ar ôl iddynt ddatgan diddordeb. Dyma'r camau nesaf:

- y partneriaethau i sicrhau bod rhaglenni addysg gychwynnol athrawon wedi cael eu dilysu'n academaidd cyn eu cyflwyno i Fwrdd Cyngor y Gweithlu Addysg i'w hachredu'n broffesiynol
- y partneriaethau i gyflwyno eu rhaglenni i Fwrdd Cyngor y Gweithlu Addysg i'w hachredu erbyn 1 Rhagfyr 2017
- Bwrdd Cyngor y Gweithlu Addysg i benderfynu a yw'r rhaglenni yn cynnig paratoad proffesiynol perthnasol ar gyfer addysgu, gan sicrhau bod myfyrwyr addysg yn cyrraedd y safonau Statws Athro Cymwysedig ar gyfer arweinyddiaeth ac addysgu proffesiynol
- Bwrdd Cyngor y Gweithlu Addysg i roi gwybod i'r partneriaethau am eu penderfyniad ym mis Mehefin 2018 a'r rhaglenni addysg gychwynnol athrawon newydd i gael eu marchnata i fyfyrwyr posibl o haf 2018.

O fis Mai 2017 bydd y Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol Athrawon yn gweithio ag ysgolion a sefydliadau addysg uwch i ddatblygu llwybrau eraill i addysgu er mwyn recriwtio graddedigion disglair i'r maes, ynghyd â'r rheini sydd am newid gyrfa. Bydd y fforwm yn sicrhau bod egwyddorion sylfaenol y broses o sicrhau ansawdd ac achredu addysg gychwynnol athrawon yn berthnasol mewn ffordd briodol i bob math o addysg gychwynnol athrawon, gan gynnwys llwybrau sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

At hynny, ar ôl ystyried adolygiad Diamond, bydd y Fforwm yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer cyrsiau addysg gychwynnol athrawon 2-flynedd ôl-raddedig a 4-blynedd is-raddedig, gan roi sylw i'r goblygiadau ar gyfer dysgu ar lefel Meistr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adroddiad yr OECD yn 2014, ni ddylid brysio i wneud unrhyw benderfyniadau yn hyn o beth, ac ni fyddwn yn gwneud hynny.

4 https://www.oecd.org/edu/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA-P-KW-1172-17
Lynne Neagle AC/ AM
Chair of Children, Young People
and Education Community

29 March 2017

Dear Lynne,

Thank you for your letter of 07 March, regarding the Committee's enquiry about how expert and specialist advice is being fed in to the development of the new curriculum.

A Strategic Stakeholder Group was set up as part of the curriculum reform governance structure to ensure key stakeholders are informed of and are involved in the development of the approach to implementing the new curriculum. Public Health Wales (PHW) is a member of this group and all attendees are required to provide feedback to their networks and organisations, feed in any messages from the wider sector and also act as a critical friend to provide external challenge, scrutiny and advice.

A Healthy Relationship Expert Panel, to be chaired by Professor Emma Renold, has recently been set up to address the ongoing need to support schools to provide good quality inclusive Healthy Relationships Education. The expert panel will provide advice and support to the Welsh Government on issues relating to the delivery of Healthy Relationships education within the current curriculum and also help inform the development of the future curriculum as part of the Health and well-being Area of Learning Experience (AoLE). PHW is a member of this Panel.

Our respective officials are in contact, and there is established joint action between the health and education sectors which can inform the development of the curriculum, for example the Welsh Network of Healthy Schools Schemes (WNHSS).

Work on the high level design of the AoLEs began in January 2017. A work plan and clear milestones were agreed to enable the creation of an initial high level framework for each AoLE by the end of June this year. This framework will be used as a blueprint to fully develop, populate and test emerging models for each AoLE.

The Health and Well-being workshop in February focused on emotional and physical well-being. There was a strong emphasis on bringing in experts in public health and other

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

relevant disciplines. PHW presented on the Together for Children and Young People programme and on their broader work on wellbeing. The office of the Children's Commissioner and Sport Wales also came along to inform and support the curriculum development process.

At a second workshop in March PHW presented a view of links between our WNHSS and the Health and Wellbeing AoLE and there was a clear message from attendees that the Health and Wellbeing aspect of the curriculum, and expectations of the broader ethos and culture of a school, should build on the good work that schools are already putting in place as part of their involvement in WNHSS.

Over the coming months, our priorities for expert input, in addition to more general curriculum and assessment expertise, are to utilise expertise from PHW and other health stakeholders in relation to the Welsh Network of Healthy School Schemes, Adverse Childhood Experiences (ACEs) and child development among other topics, to ensure that the initial high level framework is informed by expert input and research. There will be further opportunities to utilise the specialist advice and support of public health experts and organisations beyond June, when the detailed elements of the curriculum are scoped out and resources gathered and developed.

Within Welsh Government, our officials have established a mechanism for engagement that spans the range of interests across health and social care. We, along with the Minister for Social Services and Public Health, will continue to work together to maximise opportunities to improve the health and wellbeing of children through the development of the new curriculum and through the school inspection programme.

Yours sincerely

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-8151-16

Lynne Neagle AM
Chair
Children, Young People and Education Committee

30 March 2017

Dear Lynne,

**Follow-up to evidence on 18 January 2017**

Thank you for your further letter of 7 March requesting additional information on a number of areas following our attendance at the Children, Young People and Education Committee on 18 January 2017.

**Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)**
In relation to the request set out in your letter; we wrote to you on 2 February 2017 regarding the 28-day target. Our letter confirmed we do collect and publish waiting time data against the target which addresses the information you are seeking, and have done this since 2010.

This letter also provided a link to the StatsWales website where the data can be viewed and interrogated. We include the link below to assist you:
https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Inpatient-and-Outpatient-Waiting-Times-for-Non-RTT-Specialties/waitingtimes-by-specialty-patienttype

In relation to the 48-hour urgent assessments, whilst we do not collect data in the 48-hour target for access to an urgent assessment, we do receive assurances from Health Boards confirming that it is being met.

**A Framework for a School Nursing Service in Wales**
The launch of the Framework for a School Nursing Service in Wales is to take place on Thursday, 18 May at Ysgol bae Baglan. Whilst the launch itself has been slightly delayed by school holidays and the additional burden of exam periods on our schools, we will be happy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

to provide you with a copy of the final School Nursing Framework document earlier than the launch date and will ensure this is shared with you once we have cleared the final version.

We hope you have found this reply helpful.

Yours sincerely,

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

**Rebecca Evans AC/AM**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon